Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Pynciau llosg yn y cyfryngau

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer gweithgaredd** | **60 munud a mwy** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar effeithiau tanau gwyllt ar ein bywydau a'r amgylchedd naturiol ac yn archwilio sut mae'r effeithiau'n cael eu trafod yn y cyfryngau.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cwricwlwm i Gymru

| Y Celfyddydau Mynegiannol | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Iechyd a Lles |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. |
| | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles. |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae cwblhau'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfleoedd i gyflawni'r rhannau canlynol o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

| Rhyngweithio a chydweithio | Cynhyrchu |
|---|---|
| • Cyfathrebu. | • Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol. |
| • Cydweithredu. | • Creu cynnwys digidol. |
| | • Gwerthuso a gwella cynnwys digidol. |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Deall rhywfaint o'r hyn sy'n cymell y sylw a roddir gan y cyfryngau i danau gwyllt.
- Cydnabod bod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng moeseg, gwerthoedd ac agweddau pobl.
- Cydweithio'n greadigol i gyfuno eu gwybodaeth, eu profiad a'u dealltwriaeth i gynllunio dogfen gyfathrebu sy'n addas i ystod o wahanol gynulleidfaoedd, dibenion a chanlyniadau.

## Adnoddau ac offer

- Cardiau adnoddau – Pynciau llosg yn y cyfryngau
- Nodyn gwybodaeth – Tân
- Erthyglau tanau gwyllt lleol (dewisol)

## Gwybodaeth gefndirol

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio amrywiaeth o benawdau newyddion o ddigwyddiadau gwirioneddol er mwyn rhoi cyd-destun bywyd go iawn. Mae tanau gwyllt yn aml yn denu llawer o sylw yn y cyfryngau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol.

Anaml iawn y mae'r straeon yn ymwneud â'r tanau gwyllt eu hunain - yn hytrach, maent yn trafod sut maent yn effeithio ar fywyd gwyllt a'r rhai hynny sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardaloedd dan sylw. Mae tanau gwyllt yn dueddol o'n cyfareddu, yn enwedig yr elfen weledol wrth weld ffilmiau neu luniau ohonynt.

Pan mae tannau gwyllt yn digwydd, mae pobl yn dod i wybod amdanynt yn y newyddion. Bydd yr effeithiau uniongyrchol yn cael eu trafod, yn enwedig yr effaith ar boblogaethau ger y tanau, faint o dai sydd wedi cael eu llosgi, faint o strwythurau sydd dan fygythiad, sawl ffordd sydd ar gau, faint o bobl sydd wedi cael eu hanafu neu eu lladd, neu faint sydd wedi gorfod symud o'r ardal ac ati.

Mae gan y cyfryngau gyfrifoldeb yn ystod tanau gwyllt i helpu i ledaenu gwybodaeth a all achub bywydau. Gall straeon cyfryngau fod yn ddefnyddiol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad tanau gwyllt, a all helpu pobl leol i gadw eu heiddo, eu hunain ac eraill yn ddiogel, a helpu i hysbysu'r rhai sy'n gweithio i ddiogelu'r amgylchedd a bywyd gwyllt.

Gan fod tanau gwyllt yn effeithio mor andwyol ar yr amgylchedd, yr economi a chymunedau lleol, mae straeon yn aml yn parhau yn y cyfryngau hyd yn oed wedi i'r tanau ddiffodd, gan amlygu effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor digwyddiadau o'r fath.

Gall rhai straeon cyfryngau am danau gwyllt fod yn eithaf dramatig. Yn ystod y tymor tanau yn y DU (o fis Mawrth hyd fis Ebrill ac o fis Gorffennaf hyd fis Medi), mae straeon am danau gwyllt yn ymddangos bron yn ddyddiol ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn papurau newydd, ar y radio ac ar y teledu. Ond ychydig iawn o'r straeon hyn sy'n cymryd yr amser i gyflwyno gwybodaeth am atal tanau gwyllt. Nid yw tanau diniwed wedi'u cynllunio gan y rhai sy'n rheoli'r tir er mwyn lleihau'r tanwydd sydd ar gael ar gyfer tanau gwyllt, yn cael sylw yn y cyfryngau'n aml iawn. Mae'r cyfryngau'n ymwybodol bod tanau mwy dramatig sy'n llosgi dros ardal ehangach, yn achosi mwy o ddifrod, ac yn effeithio ar fwy o bobl a bywyd gwyllt yn denu mwy o sylw ac yn gwerthu straeon. Fodd bynnag, mae'r cyfryngau'n chwarae rhan hanfodol wrth godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cysylltiad rhwng digwyddiadau tanau gwyllt a newid hinsawdd.

Mae newyddiaduraeth yn cyfeirio at y dasg o gasglu a chyflwyno ffeithiau diduedd ar ystod eang o bynciau. Mae newyddiaduraeth newyddion caled yn cyfeirio at newyddion sy'n torri am bynciau pwysig sy'n amserol ac yn frys, ac fel arfer yn seiliedig ar ffeithiau ac ymchwil.

Mae newyddion meddal yn canolbwyntio'n bennaf ar adloniant. Mae newyddiaduraeth newyddion meddal yn canolbwyntio mwy ar ffordd o fyw ac adloniant. Ceir gwahanol fathau o newyddiaduraeth ond y rhai sy'n cyd-fynd orau â'r gweithgaredd hwn yw:

- Newyddiaduraeth ddarlledu: yn cyfeirio at unrhyw adroddiadau sy'n cael eu darlledu ar y teledu, radio, neu'r we gan gynnwys straeon newyddion sy'n torri o ddydd i ddydd am danau gwyllt.
- Newyddiaduraeth fusnes: yn cyfeirio at dueddiadau a newidiadau ym myd busnes. Gall digwyddiadau tanau gwyllt effeithio ar bolisi economaidd a busnes.

- Newyddiaduraeth adloniant: yn cyfeirio at bynciau megis enwogion, ffilm, cerddoriaeth, a gwyliau. Pan mae tanau gwyllt yn effeithio ar weithgareddau neu eiddo enwogion, mae mwy o ddiddordeb ymysg y cyhoedd.
- Newyddiaduraeth ymchwiliol: yn cyfeirio at y nod i amlygu pwnc a allai lywio hanes, anghyfiawnder, neu annhegwch. Gallai ymchwilio i ddigwyddiadau tanau gwyllt ysgogi trafodaeth gyhoeddus.
- Newyddiaduraeth barn: yn cyfeirio at farn y gohebwyr yn hytrach nag adrodd ffeithiau yn unig. Mae tanau gwyllt yn bwnc y mae gan y rhan fwyaf o bobl eu barn eu hunain arno.
- Newyddiaduraeth wleidyddol: yn cyfeirio at weithgareddau gwleidyddol a allai fod yn lleol, yn genedlaethol, neu'n rhyngwladol. Gellir edrych ar y cysylltiadau rhwng yr argyfwng hinsawdd a natur, a thanau gwyllt, o safbwynt gwleidyddol.
- Newyddiaduraeth warchodol: yn cyfeirio at amddiffyn cymdeithas rhag gweithgareddau anghyfreithlon a dal unigolion, sefydliadau neu lywodraethau llygredig neu anghyfreithlon i gyfrif. Mae'n bosibl y byddai tanau gwyllt sy'n cael eu cynnau'n fwriadol dro ar ôl tro mewn ardaloedd penodol yn cael eu hystyried yn y modd hwn yn y cyfryngau.

## Beth i'w wneud

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr drafod beth yw tanau gwyllt a sut maen nhw'n dechrau. Pwy maen nhw'n meddwl sy'n gyfrifol am atal tanau gwyllt? Trafodwch eu hatebion. Esboniwch ei bod hi'n gyfrifoldeb ar bawb i atal tanau gwyllt rhag dechrau'n ddamweiniol neu'n fwriadol, er mwyn diogelu bywydau, eiddo a'r amgylchedd naturiol. Cyfeiriwch at ein **Nodyn gwybodaeth – Tân** i helpu i lenwi unrhyw fylchau gwybodaeth.
2. Dangoswch y penawdau ar y **Cardiau adnoddau – Pynciau llosg yn y cyfryngau** neu bytiau allan o bapurau newydd lleol neu ddiweddar yn trafod tanau gwyllt. Gofynnwch i'ch dysgwyr drafod pam fod tanau gwyllt yn aml yn cael eu trafod fel stori o ddiddordeb dynol. Pam mae'r cyfryngau yn adrodd ar danau gwyllt? A all eich dysgwyr adnabod unrhyw fath neu arddull penodol o adrodd? A yw'r penawdau'n eu denu i fod eisiau dysgu mwy am y stori, ac os felly, pam? Pa fath o rolau sy'n cael eu cyflawni wrth adrodd yn y cyfryngau?
3. Esboniwch, ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd eich dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach i ysgrifennu a chyflwyno adroddiad newyddion yn seiliedig ar senario lle mae newyddiadurwr yn adrodd ar yr hyn sydd wedi digwydd, ac yn cyfweld gwahanol gymeriadau sydd wedi cael eu heffeithio gan danau gwyllt.
    - Rhannwch eich dysgwyr yn grwpiau o hyd at 5 dysgwr. Rhowch gopi o'r **Cardiau adnoddau – Pynciau llosg yn y cyfryngau** i bob grŵp, ynghyd â cherdyn pennawd/gohebydd a 4 cerdyn cymeriad ychwanegol. Gallech addasu erthyglau tanau gwyllt lleol i gwrdd â'r briff. Dylid defnyddio'r cardiau fel canllaw ar gyfer byrfyfyr, ac nid fel sgript. Er enghraifft, dylid defnyddio'r cerdyn pennawd/gohebydd i arwain y cwestiynau a fydd yn cael eu holi i'r cymeriadau eraill, a dylid hefyd annog cyfranogwyr i feddwl am eu cwestiynau eu hunain ar gyfer cymeriadau eraill.
4. Yn eu grwpiau, gofynnwch i'ch dysgwyr:
    - Ddarllen eu pennawd papur newydd a thrafod pa broblemau posibl y gallai'r tanau gwyllt eu hachosi.
    - Penderfynu a fydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol, ar y radio neu ar y teledu, gan y bydd angen iddynt addasu eu perfformiad i ateb gofynion eu cynulleidfa.
    - Dyrannu rolau a darparu cerdyn cymeriad perthnasol ar gyfer pob rôl.
    - Cynllunio eu hadroddiad a'u cyfweliad. Beth maen nhw'n mynd i'w gynnwys? Pa gwestiynau maen nhw'n mynd i'w gofyn? Pa wybodaeth mae'r cymeriadau eisiau ei rhannu?
    - Ystyried sut y byddai'r gohebydd a'r cymeriadau'n ymddwyn. Pa emosiynau maen nhw'n meddwl sydd angen eu portreadu?
    - Pa fath o dôn llais fydd ar yr adroddiad? Pa arddull adrodd mae'r grŵp eisiau ei ddefnyddio? A fydd yn fwy dramatig? Er enghraifft, gwneud y sefyllfa'n fwy difrifol a manteisio ar golledion pobl a byd natur? Neu a fydd yn adrodd mwy am y peryglon, y risgiau, y rhybuddio a'r hysbysu, efallai'n gwneud cysylltiad â'r argyfwng hinsawdd? A fydd yn cefnogi mesurau ataliol a newid polisi?

5. Caniatewch amser i ymarfer cyn i bob grŵp gyflwyno eu hadroddiad newyddion. Gallech ffilmio perfformiad pob grŵp os oes offer recordio addas ar gael.
6. Gofynnwch i bob grŵp asesu perfformiadau ac allbynnau ei gilydd. Beth weithiodd yn dda? Beth fyddai modd ei wella? Beth fydden nhw wedi gallu ei wneud yn wahanol i wella eu hadroddiad neu berfformiad? Beth maen nhw'n ei feddwl y bydd y gynulleidfa wedi'i ddysgu am danau gwyllt o'u hadroddiad yn y cyfryngau?

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Pam mae pobl yn cynnau tanau gwyllt yn fwriadol?
- Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai tân gwyllt yn digwydd yn eich hoff le natur neu'n agos i'ch cartref?
- Sut y gallai tanau gwyllt effeithio ar wahanol unigolion neu grwpiau o bobl yn y gymuned leol?
- Pa wybodaeth sydd angen i'r cyhoedd ei wybod am danau gwyllt?
- Beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu ffeithiau a gwybodaeth i eraill?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Gohebydd i ofyn cwestiynau i gymeriadau y gellid eu hateb gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y cardiau cymeriad yn unig.

### Mwy o sialens

- Gallai dysgwyr greu stori gefndir i'w cymeriadau ac ystyried mwy o ffyrdd y gallai tanau gwyllt effeithio ar bob cymeriad nad ydynt yn cael eu trafod ar y cardiau cymeriad.
- Creu penawdau a chymeriadau ychwanegol sy'n cael eu heffeithio gan danau gwyllt.
- Rhowch amserlen ar gyfer yr adroddiad y gall eich dysgwyr weithio tuag ato.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

Beth am roi cynnig ar ein:

- Cynllun gweithgaredd – ABC Tanau gwyllt
- Cynllun gweithgaredd – Dihangfa o danau gwyllt
- Ysgrifennwch erthygl newyddion a fyddai'n mynd ochr yn ochr â'ch pennawd.

**Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk  0300 065 3000**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government